Canlyniadau Eisteddfod Llandudoch 2022

Bu'r wythnos o Mai 16 - 23 yn un brysur yn Llandudoch, gyda digwyddiadau Eisteddfod Llandudoch yn ail-afael wedi gorfod gohirio ddwywaith yn 2020 a 2021. Cafwyd noson wobrwyo fyrlymus yn y Cartws ar y Nos Lun gydag enillwyr cystadlaethau llên a chelf y plant yn dod ynghyd i gasglu eu gwobrau. Rhian Davies, Penparc a'r arlunwyr Meirion a Joanna Jones oedd y beirniaid, ac fe gawson nhw eu plesio'n fawr gan y cynnyrch a ddaeth i law. Enillwyd y ddwy brif wobr, sef gwobr W.R. Smart am y llenor gorau mwyaf addawol gan Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli, a gwobr Kenneth Mower am yr arlunydd a mwyaf addawol gan Llio Lewis, Ysgol Gynradd Aberteifi.

Yr ail ddigwyddiad oedd cyhoeddi canlyniadau'r cystadlaethau llên gan y beirniad, y prifardd Aneirin Karadog, a hefyd Talwrn y Beirdd yng ngofal y prifardd Ceri Wyn. Roedd tri thîm yn cystadlu gyda Thîm Beca yn dod i'r brig, a thimoedd y Sân a Ffinen yn dynn wrth eu sodlau. Noson fywiog arall yn llawn hwyl a safon. Fe sgoriodd y tri thîm ddeg marc yr un am gywydd teyrnged i dri pherson o Gymru - Meic Stevens, Dai Jones Llanilar, a Mair Garnon James

Y beirniaid yn yr eisteddfod Ddydd Sadwrn oedd Mari Grug James (llefaru), gydag Eleri Owen Edwards, Cil-y-cwm a Rhiannon Lewis, Llanbedr PS yn rhannu'r gwaith yn yr adran gerdd. Angharad James, Llantwd a Chaerdydd fu'n cyfeilio, gan weithio'n ddiwyd am yn agos i ddeuddeg awr.

Un o uchafbwyntiau'r eisteddfod heb os oedd cadeirio'r bardd Jo Heyde. Mae Jo yn enedigol o Lundain ac wedi bod yn dysgu Cymraeg ers rhyw dair blynedd. Yn y cyfnod hwnnw mae wedi meistroli nid yn unig yr iaith, ond wedi dysgu cynganeddu hefyd. Braint yn wir oedd cadeirio rhywun mor ysbrydoledig ac sy'n cyfrannu'n frwd a chyson i weithgareddau Cymraeg Llundain, ac sydd wedi ymgolli'n llwyr yn Pethe Cymraeg er nad oedd ganddi unrhyw gysylltiad blaenorol â Chymru.

Tesni Peers o Fangor, er yn enedigol o Rosllannerchrugog, a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc. Mae Tesni yn fyfyriwr Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd a, gan ei bod yng nghanol ei arholiadau, ni allodd hi ddod i'r eisteddfod.

Enillwyd Tlws Llenyddol y Dysgwyr gan Liz Backen o ardal Casblaidd. Mae hi'n mynychu dosbarthiadau Dysgu Cymraeg Sir Benfro a noddodd gystadlaethau'r dysgwyr eleni. Unwaith eto, dyma ddysgwr a ymroddodd yn llawn i' ddysgu a defnyddio Cymraeg.

Bu'r Eisteddfod yn fwrlwm o'r cychwyn cyntaf, a phlant Ysgol Llandudoch (yn bennaf) yn heidio i'r llwyfan ar gyfer yr eisteddfod leol. Cawsant berfformio o flaen neuadd oedd yn llawn o rieni a chefnogwyr. Gydol y dydd wedyn , cafwyd

nifer o berfformiadau o safon uchel iawn gan gystadleuwyr dawnus a oedd yn amlwg yn falch o'r cyfle i berfformio'n fyw ar lwyfan unwaith eto
Bu'r neuadd yn gysurus lawn gydol Eisteddfod yr Hwyr, a'r gynulleidfa'n mwynhau perfformiadau'r corau yng nghystadleuaeth Côr Llandudoch, ac yn cael gwefr wrth wrando'r Her Unawdwyr.

Diwrnod llwyddiannus yn ddi-os, a phawb yn mynnu mor braf oedd hi cael bod yn ôl mewn eisteddfod fyw. Diolch i bawb - y cystadleuwyr, y beirniaid, y cyfeilydd a phob un a weithiodd i sicrhau bod y diwrnod yn symud yn ei flaen yn hwylus. Ymlaen nawr at 2023!

Cystadlaethau Lleol

Unawd oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Cybi Ladd, Llandudoch 2il: Scarlett Rouet, Llandudoch 3ydd:Lucas Williams ac Oliver Evans, Llandudoch
Llefaru unigol Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Jake Sullivan, Llandudoch
Unawd Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Rowan Reeves, Llandudoch 2il:Evie Towe, Llandudoch 3ydd: Menna Forster, Llandudoch a Brooke Thomas, Llandudoch
Llefaru unigol Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af:Enlli Harries, Eglwyswrw 2il: Alys Humphreys, Llandudoch 3ydd: Lili Foulkes Roberts, Llandudoch
Unawd Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Alys Humphreys, Llandudoch 2il: Lili Foulkes Roberts a Lilwen Ford, Llandudoch 3ydd: Enlli Harries, Eglwyswrw
Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Enlli Harries, Eglwyswrw
Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Anna Dafydd
Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af: Anna Dafydd
Parti/Côr hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ysgol Gynradd Llandudoch

Cystadlaethau Ilên y plant

Stori neu ddisgrifiad i blant hyd at Flwyddyn 2 (Llun a stori). 1af Annes Euros, Pwllheli: 2il: Anni Foulkes Roberts, Ysgol Llandudoch 3ydd: Krystyna Thomas Lorencava, Ysgol Llandudoch;
Stori neu ddisgrifiad i blant Blynyddoedd 3 a 4. 1af:Elliw Grug, Ysgol Dyffryn Cletwr 2il: Elsie Birch, Llandudoch 3ydd: Menna Forster, Llandudoch
Stori neu ddisgrifiad i blant Blynyddoedd 5 a 6. 1af: Hywyn Euros, Pwllheli: 2il: Alys Humphreys, Llandudoch 3ydd: Aysel Durdu, llandudoch
Barddoniaeth Blynyddoedd 3 a 4. 1af: Miriam Grimm, Llanychllwydog:
Barddoniaeth Blynyddoedd 5 a 6. 1af: SebastianTree, Eglwyswrw
Gwobr Her W.R.Smart i'r llenor mwyaf addawol: Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli, Gwynedd.

***Cystadlaethau Celf y plant**:*

Oed meithrin neu dderbyn. 1af: Jensen Dean, Llandudoch 2il: Ivy Ferrier, Cilgerran a Hefin Wild, Llandudoch 3ydd: Tara Baxter a Pearl Davies, Ysgol Aberteifi

Blwyddyn 1 a 2. 1af: Aine Briton-Smith, Llandudoch 2il: Talia Hayward a Joey Studley, Aberteifi 3ydd:Llion Jones, Aberteifi Cymeradwyaeth: Cybi Ladd a Krystyna Thomas Lorencava, Llandudoch
Blwyddyn 3 a 4. 1af: George Caygill, Llandudoch 2il: Rhys Thomas, Aberteifi 3ydd:Jac Humphreys ac Elsie Birch, Llandudoch
Blwyddyn 5 a 6. 1af:Llio Lewis, Aberteifi 2il:Fred Purnell, Aberteifi 3ydd:Darcy Male a Tamiya Jones, Aberteifi Cymeradwyaeth: Ave George, Aberteifi,; Evie Ray Winter, Aberteifi; Alys Humphreys, Llandudoch; Summer Williams, Llandudoch.
Ffotograffiaeth : Blwyddyn 6 ac iau. 1af: Danny Graham, Llandudoch 2il: Harry Richmond, Llandudoch 3ydd: Ellie Savory, Llandudoch
Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol : Llio Lewis, Aberteifi

Cystadlaethau agored
Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4. 1af:Iwan Tomos, Pontarddulais 2il:Miriam Grimm, Maenclochog 3ydd: Celyn Davies, Llandyfrïog a Elliw Davies, Drefach Llanybydder
Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1af:Iwan Tomos, Pontarddulais 2il:Miriam Grim, Maenclochog 3ydd: Celyn Davies, Llandyfrïog
Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6. 1af:Elen Fflur, Castell newydd Emlyn 2il: Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1af:Elen Fflur, Castell newydd Emlyn
Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af:Elen Fflur, Castell Newydd Emlyn 2il: Iwan Tomos, Pontarddulais
Canu emyn hyd at Flwyddyn 6. 1af: Iwan Tomos, Pontarddulais 2il: Elen Fflur, Castell Newydd Emlyn
Unawd Cerdd Dant hyd at Flwyddyn 6. 1af: Elen Fflur, Castell Newydd Emlyn 2il: Miriam Grim, Maenclochog ac Iwan Tomos, Pontarddulais
Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af: Dewi Ifan, Llangrannog
Gwobr Her Iwan a Sian Davies, Isfryn, i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn y cystadlaethau o oed Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6. Iwan Tomos, Pontarddulais
Llefaru unigol dan 16 oed. 1af:Trystan Bryn Evans, Llanwrda 2il: Ianto Evans, Casblaidd
Unawd dan 16 oed. (Cwpan Her y diweddar Miss Mair Evans) . 1af Trystan Bryn Evans, Llanwrda
Unawd Alaw Werin dan 16 oed. 1af: Trystan Bryn Evans, Llanwrda
Canu Emyn dan 16 oed. 1af: Trystan Bryn Evans, Llanwrda
Unawd piano dan 16 oed. 1af: Trystan Bryn Evans, Llanwrda
Unawd unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano dan 16. 1af: Ianto Evans, Casblaidd
Gwobr Arbennig Merched y Wawr Llandudoch i'r perfformiad llwyfan gorau oed Uwchradd dan 16 oed: Trystan Bryn Evans, Llanwrda

Unawd 16 a than 19 oed. 1af: Phoebe Salmon, Dinas
Llefaru unigol 19 a than 26 oed : 1af: Sioned Howells, New Inn, Pencader
Unawd 19 a than 26 oed : 1af: Ffion Thomas, Crymych 2il: Sioned Howells, Pencader
Cân o unrhyw sioe gerdd (unawd, deuawd neu grŵp). 1af:Sioned Howells, Pencader 2il: Ffion Thomas, Crymych 3ydd: Phoebe Salmon, Dinas
Canu emyn 12 a than 60 oed. 1af: Sioned Howells, Pencader 2il: Phoebe Salmon, Dinas 3ydd: Ffion Thomas, Crymych
Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd. Gwobr : 1af: Sioned Howells, Pencader 2il: Maria Evans, Rhydargaeau 3ydd: Ffion Thomas, Crymych a Gaynor Watts Lewis, Boncath
Cystadleuaeth lwyfan i ddysgwyr. 1af: Sue Hepplewhite.
Canu emyn dros 60 oed. 1af: Vernon Maher, Castell Newydd Emlyn
Prif gystadleuaeth lefaru 1af: Sioned Howells, Pencader 2il: Maria Evans, Rhydargaeau.
Cystadleuaeth Côr Llandudoch: 1af: Côr Crymych a'r Cylch 2il: Côr Meibion Taf, Caerdydd 3ydd: Côr Clwb Rygbi Aberteifi
Yr Hen Ganiadau 1af: Efan Williams, Lledrod 2il: Ffion Thomas, Crymych 3ydd: Vernon Maher, Castell Newydd Emlyn
Her Unawd. 1af: Efan Williams, Lledrod 2il: Ffion Thomas, Crymych 3ydd:Gerwyn Rhys, Llanddarog 4ydd: Sioned Powell, Pencader a Marianne Powell, Llandre

Cystadlaethau Llenyddol

Darn o ryddiaith 11-16: 1, Jano Evans, Ysgol Bro Teifi
Darn o farddoniaeth 12-16: 1, Amber Patsons, Ysgol Bro Teifi
Darn o ryddiaith 16-26: 1, Cerys Silvestri Jones, Ysgol Bro Teifi
Darn o farddoniaeth 16-26: 1, Tesni Peers, Bangor
Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed : Tesni Peers, bangor
Cystadleuaeth y Gadair : Jo Heyde, Llundain
Telyneg : Aled Evans, Trisant, Ceredigion
Soned : Eirwyn George, Maenclochog
Cyfres o benillion telyn neu dribannau: Eirwyn George, Maenclochog
Englyn : Alan Iwi, Didcot
Cywydd: Alan Iwi, Didcot
Cerdd gynganeddol ar unrhyw fesur ac eithrio cywydd neu englyn: Terwyn Tomos, Llandudoch
Limrig: John Meurig Edwards, Aberhonddu
Cân ddigri hyd at 30 llinell: John Meurig Edwards, Aberhonddu
Stori fer: Ian Richards, Machynlleth
Erthygl addas i'w chyhoeddi mewn papur bro: Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf

Emyn ar gyfer gwasanaeth yn yr awyr agored: John Meurig Edwards, Aberhonddu
Cerdd i ddathlu 900 mlynedd o hanes Abaty Llandudoch: Eirwyn George, Llandudoch

Cystadlaethau llenyddol i Ddysgwyr
Lefel Mynediad 1af : Jayne (Llandysul)
Lefel Sylfaen 1af : Raymond (Llandysul)
Lefel Canolradd 1af: Jane Maudsley, Sir Benfro
Lefel Uwch/ Profiadol 1af : Anne May
Limrig 1af: Margaret Phillips, Llandisilio

Tlws Llenyddol y Dysgwyr - Liz Backen, Casblaidd